Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las
# Walters Road
# Llansamlet
# Abertawe
# SA7 9RW

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2011**

**gan**

**Mr J R Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las ym mhentref Llansamlet yng ngogledd ddwyrain dinas Abertawe. Mae 515 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae hyn yn dwf sylweddol o dros 70% ers yr arolygiad blaenorol. O rain mae 479 yn ddisgyblion llawn amser a’r gweddill yn rhan amser yn y meithrin. Daw’r disgyblion o nifer o ardaloedd y ddinas gan gynnwys St Thomas, Dan y Graig, Pentre-chwyth, Cwm, Trallwn, Treforys, Pentre-poeth, Cwmrhydyceirw, Ynystawe, Ynysforgan a Llansamlet.

Yn ôl yr ysgol, daw’r disgyblion o gefndir nad yw’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua 8% o'r disgyblion â'r hawl i brydau bwyd am ddim sy’n sylweddol is na’r cyfartaledd cenedlaethol o 20%. Mae tua 1% o gefndir arall i wyn Prydeinig.

Derbynnir disgyblion i’r ysgol yn llawn amser ar ddechrau’r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Saesneg yw’r brif iaith a siaredir yn y cartref gan bron 90% o’r disgyblion gyda’r gweddill â’r Gymraeg yn famiaith iddynt. Disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed. Adlewyrchir ystod lawn o allu ymhlith y disgyblion.

Mae tua 21% o’r disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae 8% ohonynt ar lefel gweithredu ysgol a mwy yn bennaf oherwydd anawsterau llefaredd, iaith a chyfathrebu. Mae 2% arall â datganiad o anghenion addysg arbennig.

Addysgir y disgyblion mewn 19 dosbarth gan 20 o athrawon llawn amser, a dau rhan amser, ynghyd â 19 cymhorthyddion llawn amser a chwe rhan amser. Mae gan yr ysgol bwrsar a chlerc llawn amser. Y gymhareb athro i ddisgybl yw 1 i 22. Mae dosbarthiadau yn cynnwys ar gyfartaledd 23 disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2005. Penodwyd y pennaeth presennol i’w swydd ym Medi 2004.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Lôn Las yw £2560 sy’n cymharu gydag uchafswm o £11,089 ac isafswm o £2560 ar gyfer ysgolion cynradd yn Abertawe. Yr ysgol sydd â’r gyllideb isaf fesul disgybl o’r 86 ysgol gynradd yn y ddinas.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- mae cyrhaeddiad disgyblion yn ôl asesiadau athrawon yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% gorau yng Nghymru yn ystod y tair blynedd olaf ar gyfer disgyblion saith mlwydd oed, ac am y ddwy flynedd olaf ar gyfer disgyblion 11 mlwydd oed o'u cymharu ag ysgolion tebyg yn ôl ffactorau cymdeithasol ac economaidd;

- mae llawer o'r disgyblion yn cyflawni safonau da a rhagorol yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm;

- yr ethos gofalgar, cynhwysol, a hapus sydd yno. Gwerthfawrogir cyfraniad yr holl ddisgyblion ac oedolion. Trafodir pawb â pharch;

- mae'r disgyblion â medrau dwyieithrwydd da iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n eu caniatáu i droi yn rhwydd o un iaith i'r llall;

- bod y disgyblion trwy'r ysgol yn datblygu'n dda iawn fel dysgwyr annibynnol. Maent yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol yn effeithiol, ac yn addasu yn rhwydd eu dealltwriaeth a'u medrau i sefyllfaoedd newydd;

- mae'r dulliau addysgu effeithiol yn cael effaith bositif ar safonau disgyblion yn enwedig ar wella eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau ehangach; ac

- mae system effeithiol iawn yn bodoli i olrhain cynnydd disgyblion sy'n canolbwyntio ar adnabod anghenion dysgu unigolion, ac sydd yn cefnogi a herio disgyblion o bob oed i wneud eu gorau glas.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:

- y rheolaeth effeithiol iawn sy'n rhoi cyfrifoldeb i staff ar bob lefel ac sy'n cynnwys disgyblion o bob oed wrth benderfynu beth a sut maent yn dysgu;

- mae yno ymdeimlad clir cytunedig o bwrpas a chyfeiriad. Mae'r holl staff yn cyd-weithio'n effeithiol iawn fel tîm i wella deilliannau'r disgyblion;

- mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol iawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig a gyflwynwyd yn 2008 sy'n caniatáu i athrawon a disgyblion i wneud y gorau o ddysgu;

- mae prosesau effeithiol iawn yn bodoli i olrhain cynnydd disgyblion o bob gallu;
- mae prosesau hunan-arfarnu yn drwyadl ac yn canolbwyntio ar wella safonau'r disgyblion, er enghraifft, gwella perfformiad y bechgyn mwy abl i fod cystal â'r merched;
- mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol iawn fel ffrindiau beirniadol yn adnabod ardaloedd i'w gwella ymhellach;
- mae trefniadau priodol yn ei lle i wella presenoldeb y disgyblion; a
- mae gan yr ysgol hanes llwyddiannus o sicrhau gwelliant o fewn adeiladau sydd wedi gweld dyddiau gwell.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i’r ysgol i:

R1 gynnal y safonau da a rhagorol;

R2 codi cyrhaeddiad y bechgyn;

R3 gwella presenoldeb y disgyblion; a

R4 weithio gyda’r awdurdod lleol i wella cyflwr adeiladau’r ysgol.

### Beth sy’n digwydd nesaf?

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i gynhyrchu astudiaeth achos ysgrifenedig, i ddisgrifio'r arferion rhagorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn dangos bod llawer o'r disgyblion saith mlwydd oed ar ddiwedd cyfnod allweddol un ac yn 11 oed ar ddiwedd cyfnod allweddol dau yn cyrraedd safonau da iawn. Mae'r canlyniadau yma yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% gorau yng Nghymru yn ystod y tair blynedd olaf am blant saith mlwydd oed, ac am y ddwy flynedd olaf am ddisgyblion 11 mlwydd oed, o'u cymharu ag ysgolion yn ôl ffactorau cymdeithasol ac economaidd tebyg.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen yn aml o bwynt mynediad isel. Mae'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion saith mlwydd oed yn cael eu hadeiladu ar yn effeithiol iawn ymhob blwyddyn yng nghyfnod allweddol dau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, yn y Gymraeg, mae disgyblion yn trin a thrafod storïau ac yn dod yn gynyddol gyfarwydd â defnyddio llyfrau priodol. Mae eu medrau darllen cynnar yn datblygu yn dda ac erbyn saith mlwydd oed mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen i bwrpas ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r testun. Mae'r disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i fynd i'r afael â geiriau newydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'r mwyafrif yn saith mlwydd oed yn medru ysgrifennu darnau byr yn annibynnol gyda llawysgrifen daclus a sillafu cywir yn y Gymraeg.

Yng nghyfnod allweddol dau, mae medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu da gan y rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion hŷn a mwy galluog yn darllen gyda rhuglder a mynegiant clir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn mwynhau darllen llyfrau ffuglen a ffeithiol sy'n briodol i'w oed a'u gallu. Mae rhan fwyaf yn siarad yn hyderus a chydag ystod addas ac eang o eirfa yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio eu medrau llythrennedd a dwyieithrwydd da, yn effeithiol iawn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae brwdfrydedd y disgyblion hŷn am lyfrau yn sbardun da iawn iddynt ysgrifennu i bwrpas. Maent, er enghraifft, yn ysgrifennu'n ddychmygus ac yn ffeithiol mewn llawer iawn o weithgareddau amrywiol gan ysgrifennu'n estynedig yn rheolaidd. Mae medrau rhifedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ac yn briodol i'w oed a'u gallu. Defnyddir y rhain yn effeithiol iawn gan y disgyblion yn eu gwaith themâu ar draws y cwricwlwm.

Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn datblygu'n dda iawn fel dysgwyr annibynnol. Maent yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol yn effeithiol, yn datblygu strategaethau priodol i ddatrys problemau ac yn addasu eu dealltwriaeth a'u medrau i sefyllfaoedd newydd. O ganlyniad, maent yn medru mynegi eu syniadau a'u barnau yn glir ac yn hyderus. Maent hefyd yn gallu siarad yn briodol ac yn rhwydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol pan fo angen. Gwneir cynnydd da iawn yn eu medrau llythrennedd a'u medrau meddwl o'u man cychwyn yn y dosbarth meithrin i flwyddyn chwech.

Mae cyrhaeddiad y bechgyn yn saith ac yn 11 oed wedi gwella o’i gymharu â chyrhaeddiad y merched yn ystod y tair blynedd ddiweddaf. Yn 2011, mae’r bechgyn yn 11 oed yn gwneud yn well na’r merched ymhob pwnc ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4). Mae’r merched mwy abl yn 11 oed yn gwneud yn well na’r bechgyn ar y lefel uwch na’r disgwyliedig (lefel 5). Mae hyn bennaf oherwydd bod canran uchel o’r bechgyn yn 2011 ac anghenion dysgu ychwanegol. Fe gyfrannodd hyn yn sylweddol i berfformiad y bechgyn yn 2011 ar y lefel uwch fod yn isel o’i gymharu ag ysgolion eraill o fewn y teulu, yn yr awdurdod lleol ac yng Nghymru.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion bregus eraill yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu targedau unigol.

Mae disgyblion sy’n cael cinio ysgol am ddim wedi gwella yn eu perfformiad yn ystod y blynyddoedd diweddaf. Ychydig iawn yn is ydy eu perfformiad yn 2011 o’u cymharu â disgyblion sy’n talu am brydiau bwyd ysgol.

Erbyn 11 mlwydd oed, mae llawer y disgyblion yn ddysgwyr hyderus, annibynnol a medrau cadarn yn rhifedd a llythrennedd yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae hyn yn eu paratoi yn dda iawn am y cyfnod nesaf o’u haddysg.

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth dda iawn yn yr ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo eu lles, eu cynnydd a’u cyrhaeddiad academaidd. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn ymdrin yn dda â'r holl ddigwyddiadau gan gynnwys bwlio. Mae bron pob un yn deall beth sydd angen i gadw’n iach ac maent yn cymryd rhan yn y cyfleoedd rheolaidd yn yr ysgol sydd ar gyfer cadw’n heini.

Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn. Mae'r disgyblion yn awyddus i ddysgu ac yn dangos lefel dda o gymhelliant yn y dosbarth ac mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae cyfran uchel iawn yn cymryd rhan mewn clybiau ysgol, timau, grwpiau cerddorol a sioeau. Mae'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd mewn ystod dda iawn o weithgareddau i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol.

Mae'r’ athrawon a’r disgyblion yn cynllunio ar y cyd yr hyn maent angen ei ddysgu a’r dulliau dysgu. Maent yn elwa yn fawr iawn o’r dulliau ymholgar a ddefnyddir i wella eu medrau meddwl. Mae’r dulliau yma’n ysgogi eu diddordeb, eu hannibyniaeth a’u mwynhad ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae presenoldeb y disgyblion yn gwella'n raddol ac ar ychydig dros 93% yn agos at lefelau ysgolion eraill yr awdurdod lleol ac yn genedlaethol. Serch hynny, ac er gwaetha holl ymdrechion y staff, mae'r ysgol yn dal ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg yn ôl cefndir cymdeithasol ac economaidd am absenoldeb ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

Mae llawer o’r disgyblion â medrau cymdeithasol a medrau bywyd da iawn. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith ac yn dangos parch a gofal tuag eraill. Maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol,

gan gynnwys y cyngor ysgol effeithiol sydd â chynrychiolaeth ar y cyngor ieuenctid y gymuned leol ac ar y corff llywodraethol. Mae'r aelodau wedi cyfrannu at y broses o benodi staff ac i benderfyniadau am nifer o welliannau i amgylchedd yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol cwricwlwm priodol sy'n cwrdd ag anghenion yr holl ddisgyblion a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r holl athrawon a'r cynorthwywyr dosbarth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gyda disgyblion o fewn eu dosbarthiadau. Mae'r addysgu a'r dysgu yn seiliedig ar themâu ac yn ymateb yn effeithiol iawn i Gwricwlwm 2008 Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion. Mae'r newidiadau yma yn ennyn brwdfrydedd disgyblion ac yn hybu'n effeithiol iawn datblygiadau yn eu medrau. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gael y gorau bosib allan o'u dysgu.

Ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol creadigol a chorfforol sy'n galluogi'r disgyblion i ddefnyddio eu Cymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Yn ogystal, trefnir clwb Cymraeg i rieni.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Maent yn medru trin a thrafod yn wybodus elfennau o waith beirdd, awduron, arlunwyr ac enwogion eraill Cymreig. Ceir brofiadau gwerthfawr trwy gydweithio gydag artistiaid, llenorion a cherddorion o Gymru yn ogystal â chystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd. Atgyfnerthir y dysgu yn effeithiol iawn gan arddangosfeydd lliwgar a symbylus sy'n ysgogi'r disgyblion i wybod mwy am Gymru heddiw yn ogystal â'i hetifeddiaeth a'i hanes.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn rhagorol. Trwy gynllunio craff ar draws yr ysgol, a defnydd effeithiol o'r dull ymholgar mae'r ddarpariaeth yn gyson sicrhau hyfedredd mewn medrau gwrando, llafar, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion i'r un graddau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhoddir lle amlwg i addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn themâu'r ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd parchu a gofalu am yr amgylchedd. Derbyniwyd yr ail Faner Werdd Eco Ysgolion yn ddiweddar ar sail y gwaith ailgylchu ac arbed ynni.

Rhoddir cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau eraill drwy brosiectau gyda gwledydd ar draws y byd, er enghraifft, India a Bangladesh. Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr dramor yn gyson fel rhan o ddatblygu dealltwriaeth am y byd ehangach. Mae disgyblion blwyddyn chwech yn ymweld â Ffrainc am wythnos breswyl yn flynyddol. Yn sgil gwaith yr ysgol ar ddinasyddiaeth byd eang, enillwyd safon ysgolion rhyngwladol yn 2011.

**Addysgu: Rhagorol**

Defnyddir dulliau ymholgar a medrau meddwl yn effeithiol iawn i ddatblygu medrau ehangach y disgyblion. Mae'r dulliau yma yn cael effaith bositif iawn ar safonau'r yn enwedig yn llythrennedd a rhifedd.

Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi'n dda. Maent yn rhannu'r nod gyda'r disgyblion ar ddechrau'r wers ac yn trafod meini prawf disgwyliedig. Mae'r athrawon hefyd yn cynllunio da iawn ar gyfer rôl y cymhorthyddion dosbarth. Mae'r athrawon a'r cymhorthyddion dosbarth yn fodelau iaith dda.

Trwy'r addysgu da iawn a rhagorol, rhoddir i'r disgyblion y medrau sy'n eu galluogi i ddysgu'n effeithiol heb ddibynnu'n ormodol ar yr oedolion. Mae llawer o'r disgyblion yn gallu defnyddio eu gwybodaeth bresennol a'u medrau i ddatrys y problemau newydd. Mae bwrlwm gwaith ymhob dosbarth lle mae disgyblion yn gweithio'n dda fel unigolion ac mewn grwpiau.

Gwna'r ysgol ddefnydd rhagorol o'r system asesu 'fyw' ar-lein i adnabod anghenion dysgu'r disgyblion, i olrhain eu cynnydd ac i gefnogi a herio unigolion o bob gallu i gyrraedd eu potensial. Mae'r disgyblion hŷn hefyd yn cyfrannu'n effeithiol at arfarnu gwaith eu hun a gwaith eu cyd-ddisgyblion trwy adnabod y cryfderau a'r ardaloedd sydd angen eu gwella. Diweddarir cofnodion asesu yn ddyddiol neu wythnosol yn ôl yr angen ac mae hyn yn hysbysu'r athrawon a'r disgyblion o'r camau nesaf yn y dysgu. Defnyddir y system yma i gynhyrchu adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plant, ac i gymharu cyraeddiadau ei phlant gyda'r gweddill yn y dosbarth mewn modd sensitif a phriodol. Trosglwyddir y wybodaeth i'r ysgol uwchradd ar ddiwedd blwyddyn chwech i sicrhau dilyniant a chynnydd ym medrau a gwybodaeth y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar ac mae'r holl staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel. Mae yno ethos cynhwysol iawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda iawn. Dengys y disgyblion barch tuag at eraill ac at eiddo. Mae yna naws addolgar yn y cydaddoliad dyddiol. Cyfranna'r disgyblion yn dda at wasanaethau crefyddol a chânt gyfle i fyfyrio ar y neges a gyflwynir.

Mae'r arweiniad addysgol yn rhagorol ac yn hyrwyddo lles y disgyblion trwy sicrhau eu bod yn gweithio i'w targedau er mwyn gwneud cynnydd i symud ymlaen yn gyflym i'r camau nesaf yn eu dysgu. Caiff pwysigrwydd iechyd corfforol ei bwysleisio'n effeithiol trwy'r cwricwlwm. Cefnogir hyn gan gyfleusterau chwarae da awyr agored a thrwy ddisgyblion yn cael cyfle cyfartal i ymuno yn yr ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn cysylltu â nifer o asiantaethau arbenigol, fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol yn ôl yr angen.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y disgyblion mwyaf abl a dawnus yn dda iawn. Defnyddir arbenigedd yr

athrawes anghenion arbennig yn effeithiol iawn. Mae'r cwricwlwm yn diwallu anghenion grwpiau ac unigolion ac yn cynnig rhaglen bersonol ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau unigol ar gyfer disgyblion perthnasol, ac adolygiadau rheolaidd o'u gwaith sy'n cynnwys rhieni a disgyblion fel rhan o'r broses. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn glir iawn o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ohonynt.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, lle caiff disgyblion hawl cyfartal i holl feysydd dysgu a darpariaeth. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Gwneir hyn yn effeithiol trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol dda a thrwy waith amrywiol, gan gynnwys cysylltiadau â lleoliadau yn yr India a Bangladesh.

Caiff cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ei weddu i anghenion dysgu'r disgyblion. Yn ddiweddar buddsoddodd yr ysgol yn hael ar adnoddau gan gynnwys llyfrau, cyfrifiaduron newydd ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Gwneir defnydd llawn o'r adnoddau perthnasol yma a'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu at y cwricwlwm a'i gyfoethogi.

Mae'r ysgol ar safle eang o ryw bump a hanner erw. Mae un hen brif adeilad pren a phedwar adeilad arall gan gynnwys y gegin mewn cyflwr gwael a heb fod yn addas iawn ar gyfer addysg yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mae cyfleusterau tai bach yn y prif adeilad yn annigonol a heb fod i'r safon ddisgwyliedig ar gyfer y staff a'r plant. Mae mynediad i'r adeiladau allanol yn anaddas i unigolion ag anableddau oherwydd y grisiau serth sy'n peri perygl dyddiol i blant y derbyn ac eraill sy'n ei defnyddio i gyrraedd y gegin yn ystod yr awr ginio. Mae iard yr ysgol ar lethr serth ac yn anaddas ar gyfer cynnal llawer o weithgareddau awyr agored. Serch hynny, gwneir defnydd da o'r tir a'r caeau o gwmpas yr ysgol ar gyfer dysgu awyr agored, yn enwedig ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i wella'r safle'r ysgol yn y dyfodol agos.

Codwyd mater o iechyd a diogelwch gyda'r llywodraethwyr yn ymwneud a pharcio ceir y rhieni ar ddechrau a diwedd diwrnod ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol iawn. Mae yn sicrhau bod pob agwedd a blaengaredd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad clir a phositif ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion.

Mae gan yr ysgol strwythur staffio effeithiol. Mae hyn yn cynnwys, dirprwy bennaeth profiadol ac aelodau arall yr uwch dim arweinyddiaeth sy'n cydweithio'n dda iawn

gyda'i gilydd. Mae'r uwch staff wedi sefydlu gweledigaeth glir a phriodol ar gyfer yr ysgol, sy'n cael ei rhannu a'i gwireddu gan bawb.

Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar y broses gwella'r ysgol ac yn arwain at bwyntiau gweithredu i wella arfer. Adolygant benderfyniadau a wnaed yn flaenorol yn aml, i adnabod cynnydd. Mae rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn cyfrannu'n sylweddol i'r addysgu sydd o safon uchel a thuag at wella'r safonau'r disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data ac o adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol. Maent yn rheolaidd yn defnyddio'r wybodaeth i herio'r ysgol mewn meysydd y mae angen gwella'n bellach.

Mae tri aelod o'r corff llywodraethol yn llywodraethwyr yn yr ysgol uwchradd lle mae disgyblion yn trosglwyddo i yn un ar ddeg mlwydd oed. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i sicrhau fod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym i'w hysgol newydd a'u bod yn parhau i wneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae'r llywodraethwyr â pholisïau priodol i ymgymryd â'u dyletswyddau statudol. Maent hefyd yn rhoi sylw llawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda iawn. Rhoddir sylw priodol i fabwysiadu ac i roi ar waith egwyddorion a gweithdrefnau yn deillio o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ac i ddatblygu yn llwyddiannus medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r ysgol yn cael ei ddefnyddio'n aml gan ysgolion eraill yng Nghymru a Lloegr i ddarparu hyfforddiant i athrawon ar ddatblygu dulliau ymholi a medrau meddwl disgyblion trwy themâu yn hytrach na phynciau. Fe'i defnyddir hefyd fel canolfan ragoriaeth i hyfforddi ysgolion eraill ar system electronig i olrhain, cofnodi ac adrodd ar gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r broses hunan-arfarnu'r ysgol yn effeithiol iawn lle cyfrannir gan yr holl staff addysgu. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu'n ddogfen ddefnyddiol a chynhwysfawr iawn sy'n ffocysu'n glir ar wella safonau disgyblion. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad, monitro darpariaeth ac adolygiad o bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn effeithiol iawn yn sicrhau gwelliannau dros gyfnod o flynyddoedd. Llwyddwyd i wneud cynnydd da iawn wrth weithredu argymhellion yr arolwg blaenorol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu harbenigedd ac maent yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu heffeithiolrwydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn dda iawn ac yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu nodau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn ymweld â gwahanol fannau o fewn y pentref yn gyson, ac yn aml yn croesawu unigolion o'r gymuned i siarad â nhw yn yr ysgol. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u cynefin, Cymru a'r byd eang.

Mae'r ysgol yn gweithio tuag at statws Buddsoddwyr Mewn Teuluoedd. Mae hyn i gefnogi'n well gweithio â theuluoedd, yn enwedig teuluoedd bregus ar gyfer gwella lles a chyrhaeddiad eu plant. Ceir cysylltiadau adeiladol gyda busnesau lleol a sefydliadau addysg uwch.

Mae cydweithio a chynllunio effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol lle trosglwyddir y disgyblion yn 11 oed. Mae'r berthynas glos yma yn helpu sicrhau y gwneir y disgyblion gynnydd priodol yn y cyfnod nesaf o'u haddysg yng nghyfnod allweddol tri. Yn ogystal, mae'r trefniadau pontio yn paratoi'r disgyblion ar gyfer ymdopi'n well a'r dulliau asesiadau rhyngwladol fel Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA). Mae PISA yn cymharu perfformiad disgyblion yn rhyngwladol ar ddiwedd cyfnod gorfodol addysg ac yn canolbwyntio ar ddefnydd disgyblion o'u gwybodaeth a'u medrau i ddatrys problemau.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r pennaeth a staff arall yn rheoli'r holl adnoddau yn effeithlon ac effeithiol iawn. Maent yn sicrhau lefel briodol o staffio i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol ac yn sicrhau bod y staff yn gwneud y defnydd gorau o'u hamser, harbenigedd a'u profiad. Mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol y Cytundeb Cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael a Baich Gwaith Athrawon'.

Mae cynnal a chadw'r adeiladau yn her ddyddiol o ganlyniad i gyflwr gwael yr hen adeiladau sydd wedi gweld dyddiau gwell. Serch hynny, mae holl aelodau'r staff yn llwyddo i greu awyrgylch deniadol ac ysgogol ymhob dosbarth ac ardal ddysgu.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles disgyblion. Mae rhannu adnoddau â phartneriaid yn gryfder ac yn arwain at well deilliannau ar gyfer y disgyblion.

Mae'r ysgol yn derbyn tâl sylweddol i'w chyllid o nifer o ysgolion ac asiantaethau allanol eraill am waith ymgynghorol a hyfforddiant y pennaeth ar ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu ymholgar, a'r system electronig i olrhain cynnydd disgyblion.

Ysgol Lôn Las sydd â'r gyllideb isaf fesul disgybl o'r 86 ysgol gynradd yn Abertawe. Oherwydd hynny, a gan fod y disgyblion yn cyflawni deilliannau da a rhagorol mae'r ysgol yn rhoi gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dengys canlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol fod bron pob un o’r disgyblion saith mlwydd oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 wedi cyrraedd o leiaf y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ystod y tair blynedd olaf. Mae bron pob un o’r disgyblion yn 11 mlwydd oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi cyrraedd o leiaf y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros y ddwy flynedd olaf. . Mae'r canlyniadau yma yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau o'u cymharu ag ysgolion eraill mewn amgylchiadau economaidd-cymdeithasol tebyg.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig (lefel 3) yn saith mlwydd oed a lefel 5 yn 11 mlwydd oed, yn gymharol uchel ac yn agos at neu'n uwch na 50%. Perfformiad da'r merched yn y ddau gyfnod allweddol sy'n gyfrifol am hyn. Mae cyflawniad y bechgyn ar y lefelau uwch yn sylweddol is na'r merched yn yr holl bynciau craidd yn enwedig yn 2011. Mae’r canlyniadau  hefyd yn isel o’u cymharu â chanlyniadau bechgyn mewn ysgolion tebyg o fewn y teulu, yr awdurdod lleol ac yn genedlaethol.  Beth bynnag, yn 2011, roedd canran uchel o fechgyn yn 11 oed yn yr ysgol ag anghenion dysgu ychwanegol. Hyn oedd yn gyfrifol am y canlyniadau gymharol isel ar lefel 5.

Mae'r bwlch ym mherfformiad y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim o'i gymharu â’r gweddill wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2011, mae eu canlyniadau ond ychydig yn is o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 46 o holiaduron ac o fewn bron pob un ohonynt mae'r rhieni yn datgan bod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo'n ddiogel. Credant hefyd bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Maent oll o'r farn bod yr athrawon yn gweithio'n galed, maent yn hapus iawn â'r cynnydd wna'r disgyblion a'r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynigir iddynt. Teimlant fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda iawn ac yn ymatebol iawn i'w gofynion a'u pryderon.

Mae bron bob un yn hapus efo'r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd y disgyblion ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â dod i'r ysgol i ymholi am wybodaeth.

Mynegwyd pryder gan rai rhieni am gyflwr anaddas adeiladau'r ysgol.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 104 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae'r dysgwyr oll o'r farn eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent o'r farn bod yr athrawon yn rhoi cymorth da iddynt ac yn eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn llwyddo. Dywedant fod yr athrawon yn eu haddysgu'n effeithiol am bwysigrwydd gwybod sut i fod yn iach ac yn rhoi iddynt fedrau sy'n hybu eu hannibyniaeth

Dywed y mwyafrif helaeth eu bod yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni. Mae ychydig dros dri chwarter o'r disgyblion yn meddwl bod ymddygiad yn dda ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio. Mae tua 90% o'r disgyblion yn dweud bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr J R Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mr E Morgan | Arolygydd Tîm |
| Mrs M Howells | Arolygydd Tîm |
| Mr D Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr K Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr D Ellis | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |